**Cydlynydd Adran Cynulleidfa ac Addysg**

# Cynnwys

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ..........................2**

**Y Rôl ..........................................................................4**

**Ffilm Cymru Wales ..........................................................7**

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i ehangu cynrychiolaeth a phrofiad bywyd go iawn yn ein sefydliad. Cynigwn gyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy’n bodloni ein meini prawf sylfaenol ac sy’n ystyried eu hunain yn Bobl o’r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig, neu’n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu’n niwroamrywiol.

Rhowch wybod i sion@ffilmcymruwales.com os oes gennych unrhyw ofynion mynediad, gan gynnwys os hoffech wybodaeth wedi’i darparu mewn fformat gwahanol neu os hoffech gyflwyno cais mewn fformat gwahanol. Cawn eich arwain gennych chi.

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth a chynhwysiant y sector ffilm a chynulleidfaoedd yng Nghymru ac ymgymryd â’r ymrwymiad hwnnw mewn perthynas â’n harferion recriwtio a staffio.

Pan fyddwch yn gwneud cais am swydd byddwn yn anfon dolen i ffurflen fonitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ei llenwi. Ni chaiff y wybodaeth hon ei rhannu â’r panel cyfweld.

Mae’r wybodaeth a rowch yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ein gweithlu. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw elfen o’ch data personol gyda thrydydd partïon. Caiff y wybodaeth a ddarperwch ei gwneud yn ddienw a’i phrosesu yn unol â’r Ddeddf Diogelu Data a’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff data ceisiadau eu cadw am 1 flwyddyn – neu’n hirach fel sy’n ofynnol gan HMRC pe cewch eich cyflogi gennym – ac wedyn ei ddinistrio’n ddiogel, gan gadw dadansoddiad wedi’i gydgrynhoi yn unig nad yw’n cynnwys manylion personol.

I gael mwy o wybodaeth ar sut rydym yn prosesu data, gweler ein Polisi Preifatrwydd fan hyn: https://ffilmcymruwales.com/about-us/our-policies ac yno hefyd fe welwch ein cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

disability confident COMMITTED

We are a Living Wage Employer

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales

DO YOU?

Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

# Y Rôl

**Cydlynydd Adran Cynulleidfa ac Addysg**

| | |
|---|---|
| **Seiliedig:** | Caerdydd (gweithio gartref ar hyn o bryd), gyda rhywfaint o weithio ledled Cymru |
| **Cyfnod:** | Cyfnod llawn, gan gychwyn cyn gynted â phosibl. Agored i gynigion ar gyfer gweithio hyblyg. |
| **Cyfnod penodol:** | Un flwyddyn i gychwyn gyda phosibilrwydd i ymestyn |
| **Cyflog:** | £22,000-£24,000 y flwyddyn, yn ddibynnol ar brofiad, ynghyd â phensiwn |
| **Yn adrodd i:** | Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg |

Mae hon yn rôl brysur ac eithriadol o foddhaus, yn gweithio mewn tîm ymroddedig sy'n angerddol ynglŷn â diwylliant ffilm a datblygu ymgysylltiad ledled Cymru. Byddwch yn gweithio i'r Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg i gefnogi ein darpariaeth arian loteri, gan gynnwys casglu data sy'n helpu i lywio ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid.

Byddwch yn gweithio mewn cyswllt uniongyrchol ag arddangoswyr ffilmiau annibynnol (sinemâu, gwyliau ffilm a digwyddiadau cymunedol untro) sy'n gweithio'n galed i ddarparu profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd, ac ymarferwyr addysg sy'n datblygu prosiectau i ysbrydoli pobl i gymryd y camau cyntaf at ddeall, archwilio a chreu ffilmiau. Ym mhob achos, bydd gwrando yn allweddol er mwyn deall anghenion a chyfleoedd yn well. Mae ein mentrau cyllido yn aml wedi'u hanelu at y rhai sydd fwyaf ar yr ymylon ac yn annog yr ymgysylltiad ehangaf posibl yn niwylliant ffilm ffyniannus Cymru.

Yn ychwanegol at ddarparu cymorth gweinyddol, galluogi'r adran i redeg yn llyfn ac effeithlon, a chynnal cofnodion cywir, byddwch yn defnyddio eich profiad o'r sector i gynorthwyo Rheolwr yr adran yn uniongyrchol i ddatblygu ymhellach strategaethau sy'n cefnogi arddangoswyr ac ymarferwyr addysg ffilm, casglu gwybodaeth, cynnal arolygon a helpu i ddatblygu partneriaethau â rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru, BAFTA Cymru, Into Ffilm Cymru a Chanolfan Ffilm Cymru.

## Cyfrifoldebau

Bydd eich tasgau'n cynnwys y canlynol, yn ôl cyfarwyddyd ac arweiniad y Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg:

- Cynnig cyngor a gwybodaeth a chyfeirio mewn ymateb i ymholiadau fel pwynt cyswllt cyntaf i'r adran ac wrth i geisiadau gael eu datblygu i'w cyflwyno;
- Datblygu perthynas gefnogol a gwybodus ag arddangoswyr ac ymarferwyr addysg ffilm ledled Cymru ac amrywiaeth o bartneriaethau, gan gynnwys Canolfan Ffilm Cymru, Into Film, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru;
- Adolygu ceisiadau; rhoi trosolwg o wybodaeth allweddol – gan gynnwys diweddariad o'r cyllid sydd ar gael i'w ddyfarnu – i hysbysu cyfarfodydd panel cyllido, a rhannu eich asesiad cytbwys o geisiadau ag aelodau eraill y panel, yn unol â chanllawiau a meini prawf sydd wedi'u cyhoeddi;
- Drafftio llythyron cynnig a chytundebau ariannu drwy lenwi cytundebau templed;
- Cyfrannu at ein proses o werthuso ac adrodd;
- Cynnal ein cyfryngau cymdeithasol – @ffilmeducation – a thrafod gyda'n Rheolwr Cyfathrebu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datganiadau i'r wasg a sicrhau bod rhestrau postio cywir yn cael eu cynnal;

- Cyfrannu at ein strategaethau i sicrhau ein bod yn parhau i ehangu cynrychiolaeth ymysg y rhai a ariannwn a’r rhai sy’n cymryd rhan mewn gweithgarwch a ariennir;
- Hwyluso sesiynau rhwydweithio a gwybodaeth rheolaidd ar-lein i arddangoswyr ac ymarferwyr addysg ffilm (gan ddefnyddio Zoom neu Teams);
- Darparu cymorth gweinyddol ar draws ein proses ymgeisio, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i amserlennu cyfarfodydd gyda darpar ymgeiswyr, rheoli ceisiadau, ffeilio’r holl ddogfennau, amserlennu paneli asesu, cadw cofnodion, cydgrynhoi adborth ar geisiadau a rheoli data yn gyffredinol;
- Paratoi ceisiadau am daliadau a thrafod gyda’r adran gyllid;
- Paratoi, rhannu a chasglu adborth o arolygon y sector – fel ymholiadau ymateb cyflym ar effaith covid-19;
- Unrhyw dasgau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol ar gyfer y rôl hon o bryd i’w gilydd.

## Manyleb y Person

### Meini prawf sylfaenol

Gydag angerdd am ddatblygu a chefnogi diwylliant ffilm ledled Cymru, bydd gennych:

- sgiliau trefnu cryf, sylw gwych at fanylion ac ymagwedd ddigynnwrf a phroffesiynol;
- profiad y mae modd ei ddangos ym maes arddangos ffilm, addysg ffilm, lleoliadau celfyddydol a/neu leoliadau diwylliannol eraill;
- gwerthfawrogiad o’r cwricwlwm creadigol yng Nghymru a’r cyfleoedd sy’n darparu ar gyfer ymarferwyr addysg ffilm;
- sgiliau cyfathrebu cryf gyda’r gallu i gyflawni digwyddiadau ar-lein (drwy Zoom/Teams) ac wyneb yn wyneb;

- sgiliau gweinyddol cryf; mae hyfedredd mewn MS Office yn hanfodol – gan gynnwys gwybodaeth ymarferol dda am Excel a phrofiad o werthuso ac adrodd;
- ymrwymiad y mae modd ei ddangos i wella cynwysoldeb y sector;
- parodrwydd i deithio i ymweld â sefydliadau a phrosiectau a gynorthwyir ledled Cymru, ar oriau anghymdeithasol ar adegau.

**Dymunol**

- Mae rhuglder yn y Gymraeg (ysgrifenedig a llafar) a/neu Iaith Arwyddion Prydain yn ddymunol ond nid yn hanfodol.
- Gwybodaeth ymarferol am gymhwyso rheoliadau Diogelu Data ac Iechyd a Diogelwch mewn cyd-destun swyddfa, hyfforddiant neu ddigwyddiadau. Bydd hyfforddiant ar gael.
- Yn gyfarwydd â rheoliadau Covid-19 y Llywodraeth a sut maent yn berthnasol i leoliadau arddangos ffilmiau a lleoliadau addysgol.

## Ffilm Cymru Wales

Asiantaeth datblygu sector yw Ffilm Cymru Wales. Rydym wedi ymrwymo i dyfu’r sector ffilm yng Nghymru mewn ffordd gynhwysol a gwella mynediad i fyd ffilm a’i fanteision i bawb ledled Cymru. Gweithiwn ar draws y sector, gan gynorthwyo gwneuthurwyr ffilm i ddatblygu eu gyrfaoedd, prosiectau a chwmnïau. Rydym yn gwella mynediad i amrywiaeth eang o ffilmiau annibynnol ledled Cymru drwy gefnogi arddangoswyr ffilmiau – gan gynnwys sinemâu, canolfannau celfyddydau cymysg a darparwyr cymunedol – i ddangos ffilmiau, a chefnogwn ymarferwyr addysg ffilm i ddatblygu adnoddau a phrosiectau, boed yn ffurfiol mewn ysgolion gan gydweddu â’r cwricwlwm creadigol, ar-lein neu gyda phartneriaid cymunedol.

Yn ganolog i'n holl waith mae ein hymrwymiad i gynhwysiant: rydym yn hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl weithgareddau a gweithiwn yn frwdfrydig at dargedau sy'n adlewyrchu ein cenedl.

Mae ein Tîm Cynulleidfa ac Addysg yn rheoli cronfeydd loteri ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI ac yn darparu cymorth ehangach i helpu i adeiladu diwylliant ffilm yng Nghymru sy'n fwy cynhwysol a chydnerth.

I gael mwy o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales, ewch i'n gwefan: [www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)